dannedd cyfagos am rai wythnosau er mwyn ei ddal yn gadarn ac yn ddisigl.

Roedd Hunter yn argymell defnyddio dannedd pobl ieuainc, iach, os oedd y trawsblannu i lwyddo (ac roedd yn ddigon gonest i gyfaddef nad oedd y driniaeth bob amser yn llwyddiannus).

Y canlyniad gorau y gellid gobeithio amdano oedd i'r dant a drawsblannwyd ddal yn weddol gadarn am dair, neu weithiau hyd yn oed bum mlynedd.

Mae'n debyg mai'r canlyniad gwaethaf oedd bod rhyw afiechyd difrifol megis siffilis, a oedd yn gyffredin iawn yn y cyfnod, yn cael ei drosglwyddo gyda'r dant newydd.

* * * *

MAE'N DRIST meddwl am y tlodi a oedd yn gyrru pobl i aberthu'u dannedd fel hyn er mwyn cael ychydig arian, ond mae'n debyg nad oedd prinder gwirfoddolwyr. Dywedir i'r enwog Lady Hamilton benderfynu gwerthu rhai o'i dannedd blaen pan oedd yn ifanc, yn dlawd iawn ac yn ddigartref. Pan oedd ar y ffordd at y deintydd fe'i perswadiwyd i newid ei meddwl ac i fabwysiadu dull llai parchus o ennill arian.

Yn nofel Victor Hugo, *Les Miserables* (1862) gorfodir Fontine i werthu'i gwallt ac yna'i dannedd blaen ac, yn y diwedd, i aberthu'i diweirdeb.

Aeth llawfeddyg o Ffrancwr o'r enw Pierre Le Mayeur i America yn 1781. Dewisodd arbenigo mewn trawsblannu dannedd ac fe lwyddodd i boblogeiddio'r driniaeth yno. Bu'n trin Washington droeon, er nad oes sicrwydd ei fod wedi trawsblannu dannedd iddo.

Bu Le Mayeur yn hysbysebu yn y papurau am rai blynyddoedd, o 1782 ymlaen:

*'Doctor LE MAYEUR.*
*FRONT TEETH.*
*Any person disposed to part with their FRONT TEETH may receive Two Guineas for each Tooth, on applying to No. 28, Maiden Lane'* (Efrog Newydd).

Erbyn diwedd y ddeunawfed ganrif roedd deintydd yn Ffrainc o'r enw Nicholas de Chemant wedi llwyddo i wneud setiau cyfan o borslen, h.y. y sylfaen a'r dannedd yn un darn o borslen.

Nid oedd y rhain yn colli'u lliw, nac yn mynd i ddrewi, fel y rhai ifori. Er eu bod weithiau'n cracio, hyd yn oed wrth fwyta, gan achosi embaras mawr, cafodd gryn lwyddiant â hwy.

Yn anffodus nid oedd ei ddilynwyr yn medru gwneud dannedd porslen a oedd yn ffitio'n iawn. Gan hynny, collasant eu poblogrwydd yn weddol fuan ar ôl ei ddydd ef.

Yr hyn a ddatblygodd o waith de Chemant oedd yr arfer o wneud dannedd unigol o borslen a'u gosod ar sylfaen o ifori neu fetel (ac, yn nes ymlaen, rwber caled, sef Vulcanite).

* * * *

Y CAM nesaf oedd gosod y set uchaf ar blât llydan. Os oedd hwnnw'n ffitio'n iawn byddai gwasgedd atmosfferig, neu sugnedd, yn peri iddo lynu wrth y daflod.

Y syndod yw nad oedd neb wedi meddwl am hyn cyn tua 1835. Erbyn 1860 roedd hysbysebion papur newydd yn cyhoeddi'r neges am y ddyfais newydd ryfeddol. 'Dim sbrings', meddent, a dyna ni o'r diwedd wedi dychwelyd at ymdrechion y Meistri Gabriel a'u hysbyseb yn *Y Nofelydd*.

Roedd y platiau cynnar hyn yn cynnwys cylchoedd sugnedd o rwber a oedd i lynu wrth y daflod. Nid oeddynt heb eu trafferthion, nac yn ddiberygl chwaith. Yn rhy aml byddent yn dod yn rhydd yn y geg cyn gynted ag y byddai'r perchennog yn dechrau bwyta.

Yn waeth na hynny, wrth greu sugnedd dwys mewn un man, roeddent yn niweidio'r daflod. Serch hynny, daeth yn bosibl am y tro cyntaf i gynhyrchu dannedd dodi a oedd yn ddigon rhad i'r werin fedru'u prynu. Cyn hyn dim ond cyfoethogion fedrai eu fforddio.

O gofio'r problemau a oedd yn gysylltiedig â'r dannedd amrwd a chyntefig a oedd ar gael cyn hyn, fe dybiwn i fod y werin yn ffodus na allent eu fforddio.

Erbyn hyn gwneir dannedd o resin acrylig sy'n ysgafn, ac yn aml yn edrych yn union 'run fath â dannedd naturiol.

Hyd yn oed heddiw mae ffobia deintyddion yn broblem seiciatryddol digon cyffredin. Mae'n amlwg fod llawer mwy o sail i ffobia o'r fath ganrif a mwy yn ôl, er gwaethaf broliant y Meistri Gabriel.

*PWYSAIS yn drwm ar gyfrol John Woodforde 'The Strange Story of False Teeth' wrth lunio'r erthygl hon. Hoffwn gydnabod fy niolch i'r awdur.*

DANNEDD GOSOD.

DARGANFYDDIAD NEWYDD.

Dannedd Gosod yn Glynu eu hunain—heb Springs; India Rubber yn waelod. A amddiffynir trwy freint lythyrau ei Mawrhydi.

MEISTRI GABRIEL, Deintwyr, a gymerant yr anrhydedd i hysbysu eu nawddwyr, a phawb a ddymunant ymgynghori a hwy, eu bod wedi dwyn i'w hymarferiad, gyda'r boddlonrwydd a'r llwyddiant mwyaf, y darganfyddiad newydd o gymhwyso India Rubber yn waelod i'w Dannedd Gosod hwy.

SEFYDLIADAU DEINTYDDOL

MEISTRI GABRIEL

Ydynt,—Lerpwl, 134, Duke Street (gyferbyn a Berry Street); Llundain, 33, Ludgate Hill, a 110, Regent Street. Yn bresenol bob dydd o 10 hyd 6.

Yn Nghaer bob dydd Iau—3, Pepper Street. Bangor, y dydd Llun cyntaf ny mhob Mis, yn rhy Mr. Roberts, Watchmaker, High Street. Caernarfon, y dydd Mawrth cyntaf yn mhob mis—Uxbridge Arms. Dinbych, y dydd Mercher cyntaf yn mhob mis.

AMERICAN MINERAL TEETH, y rhai goreu yn Ewrop, 3s. 6c. ac uchod y dant; sets, 4p. 4s. Sets cyflawn mewn un diwrnod, a dim ond un ymweliad yn ofynol.

Pob Orders a Gohebiaethau perthynol i'r NOFELYDD i gael eu cyfeirio:—To the Publishers of the Nofelydd, Llanerchymedd, Anglesey.

# 'MULTUM IN PARVO'

## gan Dewi Jones

**Nid yr un yw safon beirniadaeth pob oes mae'n amlwg. Wele isod feirniadaeth ar englyn ar y testun 'Multum in Parvo' a roddwyd mewn Eisteddfod yn y flwyddyn 1834 ac a groniclwyd yn *Y Gwladgarwr*, gan Tramwyydd. Y Gymraeg am 'Multum in Parvo' (Lladin) yw 'Llawer mewn Ychydig'.**

***Multum in Parvo***

**Carreg a chaseg a chosyn; chwa haul**
**A chwilod y rhedyn;**
**Chwys meichiau a choes mochyn,**
**A llew ac arth a llo gwyn.**

**Gwilym Gryno**

Yr ymgeisydd cyntaf a alwid ydoedd Gwilym Gryno. Y testun dewisiedig gan yr ysgrifennydd hwn ydyw Multum in Parvo, a rhyfedd mor ardderchog y mae y gŵr wedi ymdrin â'r testun. Y mae ei waith yn dwyn cymaint o wrthrychau i gylch mor fychan yn dangos y rhaid bod yr awdur yn ŵr o feddyliau hynod o gynhwysfawr ac o ymgyffrediadau hynod o eang a chwmpasog.

Ie, foneddigion, o fewn cwmpas pedair o linellau byrion, medrodd ddwyn ynghyd — pa faint — ai pedwar gwrthrych? Nage, foneddigion, ond unarddeg, o fewn un i deirgwaith pedwar.

Ond heblaw amledd rhif y gwrthrychau, y mae un detholiad o blith yr aneirif a ymgynigiai i feddwl mor dreiddgar, yn dangos mawr synwyroldeb a destlusrwydd.

Ymddengys ond i ni ymholi i natur ac ansawdd y gwrthrychau, mor hyddysg yw y gŵr yn amrywiol ddospeirth gwybodaeth gyffredinol, canys y maent yn gyfryw ag a berthynant i wahanol ganghennau o ymerodraeth anian, megis daearddysg (geology) amaethyddiaeth, awyrddysg (pneumatics), seryddiaeth, trychfiliaeth, moesoliaeth ac anianyddiaeth.

Pa iaith ond yr iaith Gymraeg a allai gynnwys cymaint mewn cylch mor fychan? Yr ydwyf yn beiddio byd o ddysgedigion i ddangos yn holl ysgrifeniadau Groeg a Rhufain enghraifft o orchestwaith hafal i'r englyn hwn.

Ac heblaw hyn oll y mae y bardd wedi dwyn gwrthrychau o'n blaen ag sydd oll yn rhagori mewn rhyw ffordd neu gilydd. Pa beth mwy parhaus na charreg, gwasanaethgar na'r march a mwy buddiol na chaws? Pwy allai fyw heb wynt, na mwynhau pelydryn o oleuni heb yr haul? Er mor ddistadl, eto mor firain, chwilod bach y rhedyn? Ie, mor hardd-deg ydynt, fel y gelwir hwy yn y Saesoneg, yn Arglwyddes aderyn (lady-bird) ac fe wêl yr anianydd, drwy ei wydrau mwyhaol, fwy o ryfeddodau yn y trychfil bychan yma nag yn y peiriant cywreiniaf ac ardderchocaf o waith celfyddyd a dychymyg dyn.

Y mae y modd hefyd y gesyd efe o'n blaen amgylchiad y dyn a ymrwymo dros arall, yn dangos yn gelfyddgar anhafal natur a phwysfawrogrwydd ei sefyllfa. Canys mynych iawn, fel y gwyddoch foneddigion, y mae y cyfryw yn cael chwysu yn dost.

Yma hefyd y dengys yr awdur ei fawr wybodaeth o ansawdd yr iaith Gymraeg oblegid chwi a welwch nad ydyw y gŵr yn dywedyd 'chwys y meichiau' ond 'chwys meichiau'. Drwy adael allan y fannod 'y', y mae y gair yn cael ei ddefnyddio yn gyffredinol, a gellir ei briodoli i unrhyw feichiau.

Pa beth mor gadarn, mawreddus a brenhinol ei olygiad â llew cryf ymhlith anifeiliaid, ni thry yn ôl er neb. Pa greadur mwy arswydus na'r arth? A pha filyn mwy tyner yr olwg arno na llo gwyn?

Tarw gwyn a ystyrid yn y cynoesoedd y rhodd bennaf a ellid ei chyflwyno i ddyhuddo'r duwiau ac i ennill eu hewyllys da. Hyn hefyd a ddengys fod yr awdur yn hyddysg yn hanesion a moesau cenhedloedd oesoedd boreuol y byd.

Felly, ar y cyfan, foneddigion, mae'n rhaid addef fod yr englyn hwn yn tra rhagori yn ei amrywiol deithi ac mai nid beunydd y cyfarfyddir ag un cystal ag o.